# CYNLLUN GWEITHREDU HIL YR HEDDLU




## GWELLA PLISMONA AR GYFER POBL DDUON

HEDDLU TRAFNIDIAETH PRYDEINIG

BRITISH TRANSPORT POLICE

# TROSOLWG

Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu (PRAP) yw'r ymdrech gydlynol fwyaf erioed ar draws pob heddlu yng Nghymru a Lloegr. i wella ymddiriedaeth a hyder ym maes plismona ymhlith cymunedau Duon. Mae cynllun Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) wedi'i alinio â chynllun Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu (NPCC). Mae cynllun BTP yn anelu'n benodol at wella plismona ar gyfer cymunedau Duon sydd yn defnyddio ac yn gweithio ar y rheilffordd ac i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth yn ein prosesau recriwtio, cadw a datblygu pobl Dduon ein hunain. **Ein huchelgais yw bod yn heddlu gwrth-hiliol.**

Mae hiliaeth yn dal i fodoli ym maes plismona heddiw a rhaid i'n perthynas â chymunedau Duon wella'n sylweddol er mwyn sicrhau bod cymunedau'n teimlo eu bod wedi'u hamddiffyn a heb gael eu gor-blismona. Mae'r hiliaeth agored a brofwyd gan genhedlaeth Windrush yn dal i gael ei theimlo ac mae effaith gor-blismona cymunedau Duon a arweiniodd at derfysgoedd 1981 yn Brixton ac ar draws dinasoedd mawr y DU, yn dal i fod yr un mor berthnasol heddiw ag yr oedd bryd hynny. Fe wnaeth adroddiad Scarman a ddeilliodd o hyn nifer o argymhellion a oedd yn debyg i'r rhai a gynhwyswyd yn adroddiad Macpherson 1999, yn dilyn llofruddiaeth drasig Stephen Lawrence. Yn ein hanes ein hunain, cafodd gweithredoedd llygredig cyn-swyddog BTP, Derek Ridgwell, yn y 60au a'r 70au effaith ar y gymuned Affricanaidd Ddu, sy'n dal i atseinio heddiw. Gwelir y rhain fel eiliadau trobwyntiol wrth wynebu hiliaeth mewn plismona, ond mae'r diffyg cynnydd a wnaed ar weithredu argymhellion yn cael ei arddangos gan yr un pryderon a nodwyd mewn Ymchwiliadau diweddar fel Adroddiad Casey 2023. Mae hyn yn arddangos nad yw plismona wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran mynd i'r afael â hiliaeth, ac anghymesuredd tuag at y gymuned Ddu.

Mae ein data yn dweud wrthym fod pobl Dduon naw gwaith yn fwy tebygol o gael eu stopio a'u chwilio na phobl Wyn **(Stopio a Chwilio - Tudalennau Allanol)** gan Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig a saith gwaith yn fwy tebygol o fod yn destun Defnydd o Rym **(Defnydd o Rym - Tudalennau Allanol)**. Drwy ein Cynllun Gweithredu Anghymesuredd, rydym yn gweithio tuag at gyhoeddi data anghymesuredd yn allanol. Nid ydym wedi bod yn effeithiol wrth gofnodi ethnigrwydd dioddefwyr troseddau, felly nid ydym yn gallu arddangos canlyniadau dioddefwyr ar gyfer cymunedau yn ôl hil.

Rhaid i ni ddeall effaith gweithgarwch plismona BTP ar gymunedau Duon. Amlygodd adroddiad a gyhoeddwyd gan Crest Advisory yn 2022 **(adroddiad Stopio a Chwilio Crest Advisory 1)** fod 77% o oedolion Duon yn cefnogi'r hawl i'r heddlu stopio a chwilio i ddod o hyd i arfau a 71% i ddod o hyd i gyffuriau Dosbarth A, ond eu bod yn fwy pryderus ynghylch sut y defnyddir y pwerau hynny yn ymarferol. Canfu'r adroddiad hefyd fod stopio a chwilio yn cael effaith negyddol a thrawmatig ar oedolion Duon ac Ethnigrwydd Cymysg. Roedd 45% o'r holl oedolion, waeth beth fo'u hethnigrwydd, a oedd wedi cael eu stopio a'u chwilio, yn teimlo bod y profiad wedi bod yn drawmatig, gan godi i 52% o oedolion Duon.



# TROSOLWG

**Mae hyn yn amlygu pwysigrwydd y canfyddiad o gyfiawnder gweithdrefnol.** Y cysyniad o gyfiawnder gweithdrefnol yw pan fydd pobl yn teimlo eu bod yn cael eu trin mewn ffordd deg a chyfiawn o'u cyswllt cyntaf â'r heddlu, byddant yn ystyried y rhai mewn awdurdod yn fwy cyfreithlon ac yn eu parchu'n fwy. Felly, mae cyfiawnder gweithdrefnol wrth wraidd ein cynllun ac yn sbarduno ein hymrwymiad i wella ein dealltwriaeth o sut mae cymunedau Duon yn teimlo ar ôl rhyngweithio â BTP. Fel gwasanaeth cyhoeddus y mae ei allu i blismona wedi'i seilio ar gydsyniad y cyhoedd, rhaid i ni chwarae ein rhan i leihau'r gwahaniaethu a'r rhagfarnau y mae cymunedau Duon yn eu hwynebu wrth ryngweithio â'r heddlu. Dyma ein cyfle i wella plismona i bobl Dduon.

Mae plismona ar ei hôl hi o'i gymharu â'r gwasanaeth cyhoeddus ehangach fel cyflogwr o ddewis i bobl Dduon. Dim ond 1.3% o swyddogion heddlu'r DU sy'n Ddu, o'i gymharu â 3.5% o'r boblogaeth ehangach a dim ond dau swyddog Du sydd wedi cyrraedd rhengoedd Prif Gwnstabl neu Gomisiynydd Cynorthwyol yn hanes plismona (Gweithlu'r heddlu - Ffeithiau a ffigurau ethnigrwydd GOV.UK). Yn BTP, mae 4% o'n cyflogeion yn Ddu (2.4% yn swyddogion heddlu) (adroddiad Bwlch Cyflog Ethnigrwydd 2024). Drwy ffrydiau gwaith PRAP, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth a hyder gyda'r uchelgais, yn ei dro, i wella recriwtio a chadw cyflogeion Duon a gwasanaethu'r cyhoedd yn deg ac yn gyfreithlon.



# GWELEDIGAETH

**Y weledigaeth ar gyfer Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) yw bod yn sefydliad sy'n wrth-hiliol ac y mae pobl Dduon yn ymddiried ynddo.**

Nod Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu BTP – Gwella Plismona i Bobl Dduon, a gefnogir gan ein strategaeth Cynhwysiant ac Amrywiaeth, yw paratoi’r ffordd i ddod yn weithredol wrth-hiliol.

Bydd y Cynllun yn llywio arfer plismona gweithredol, gyda'r nod o wella'r profiad a'r canlyniadau i bobl Dduon.

Ein nod yw dysgu o brofiadau ein cymunedau Duon a'n cyflogeion er mwyn dylanwadu'n uniongyrchol ar ein polisïau a'n harferion, fel nad yw cymunedau Duon yn teimlo eu bod yn cael eu gor-blismona a'u bod yn cael eu tanamddiffyn; cynyddu ymddiriedaeth a hyder trwy sefydliad cynrychioliadol sy'n dod ag amrywiaeth eddwl i'n gwaith ac i sicrhau bod ein holl gyflogeion, waeth beth fo'u hethnigrwydd, **yn gwybod sut i chwarae eu rhan.**



# GWELEDIGAETH

## Bydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu BTP – Gwella Plismona i Bobl Ddu – yn cyflawni pum ymrwymiad allweddol:

1. Dim goddefgarwch o hiliaeth.
2. Mabwysiadu dull 'esbonio neu ddiwygio[1]' i fynd i'r afael â'r effaith a'r canlyniadau negyddol a brofir gan Pobl dduon.
3. Sicrhau bod ein cyflogeion yn deall hanes plismona pobl Dduon ac effaith a thrawma parhaus anghymesuredd[2], er mwyn cynorthwyo eu dealltwriaeth o'r angen gwella ansawdd ein rhyngweithiadau.
4. Datblygu gweithlu cynrychioliadol.
5. Cynyddu cyfranogiad cymunedau Duon yn ein gwaith a gwella cymorth i ddioddefwyr troseddau sy'n Ddu.




[1] **Esbonio neu ddiwygio:** Rhoi esboniad clir am anghydraddoldebau hiliol o fewn plismona neu weithredu diwygiadau i fynd i'r afael â'r anghydraddoldebau hyn a'u dileu

[2] **Anghymesuredd:** Y driniaeth neu'r effaith anghyfartal ar wahanol grwpiau hiliol, yn enwedig cymunedau Duon, mewn meysydd megis stopio a chwilio, defnyddio grym ac arferion plismona eraill.

# BYDDWN YN CYFLAWNI'R YMRWYMIADAU HYN DRWY'R CAMAU GWEITHREDU A NODIR AR DRAWS PEDWAR FFRWD WAITH:

1. **Wedi'u Cynrychioli Drwy Ein Gweithlu a'n Diwylliant**

2. **Heb eu plismona'n ormodol Wrth Ddefnyddio Ein Pwerau a'n Gweithdrefnau**

3. **Cael eu cynnwys I Adeiladu Ymddiriedaeth a Chymodi**

4. **Heb eu tan-amddiffyn fel Dioddefwyr, Oherwydd Ofn Trosedd Neu Trwy Fregusrwydd (Diogelwch ac Erledigaeth)**

# 1. WEDI'U CYNRYCHIOLI DRWY EIN GWEITHLU A DIWYLLIANT

## Gweledigaeth llif gwaith

**Mae pobl a chymunedau duon yn cael eu cynrychioli'n briodol o fewn BTP, gyda diwylliant mewnol sydd yn hyrwyddo cynhwysiant ac yn cefnogi eu datblygiad a'u cynnydd.**

## Amcanion:

- Tegwch hiliol[3] o ran denu, recriwtio, cyflog a chamymddwyn a gweithdrefnau tangyflawni.
- Tegwch hiliol a gwelliannau cyffredinol mewn datblygiad, dilyniant a chadw.
- Lleihau tangynrychiolaeth hiliol ar draws y gweithlu.
- Dim goddefgarwch i hiliaeth yn y gweithle.
- Tegwch hiliol a gwelliannau cyffredinol mewn profiadau swyddogion, staff a gwirfoddolwyr yn y gweithle a'u canfyddiadau o ddiwylliant yr heddlu.

## Bydd ein hamcanion yn sicrhau bod pobl Dduon:

- Yn cael eu hannog a'u paratoi'n dda i wneud cais am rolau heddlu.
- Heb fod dan anfantais yn y broses.
- Yn cael eu hasesu'n deg.
- Yn gallu datblygu a symud ymlaen, gan gynnwys i'r lefelau uchaf.
- Cael eu hanghenion unigol wedi'u diwallu, cael gwrandawiad a chael dylanwad.
- Cael profiadau da yn y gweithle, teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi ac eisiau aros yn yr heddlu.

**Dysgwch ragor am ein Recriwtio yma: https://careers.btp.police.uk**

[3] **Tegwch hiliol:** Yr amcan o sicrhau triniaeth, cyfleoedd a chanlyniadau teg gyda ffocws ar ddileu anghydraddoldebau a rhagfarnau o fewn plismona.

# 2. HEB EU GOR- BLISMONA YN Y DEFNYDD O'N PWERAU A'N GWEITHDREFNAU

## Gweledigaeth llif gwaith

**Nid yw pobl a chymunedau duon yn cael eu gor-blismona ac maent yn cael eu trin mewn ffordd deg a chyfiawn.**

## Amcanion:

- Gweithlu sy'n rhoi cyfiawnder gweithdrefnol[4] wrth wraidd pob rhyngweithiad.
- Tegwch ym mhrosesau BTP i sicrhau nad yw pobl Dduon yn cael eu troseddoli'n anghymesur pan fyddwn yn defnyddio stopio a chwilio.
- Tegwch hiliol wrth ddefnyddio pwerau, gweithdrefnau a technoleg yr heddlu ac yng nghanlyniadau eu defnydd.
- Tegwch hiliol a gostyngiadau cyffredinol yn y niwed a brofir gan y bobl sy'n destun pwerau a gweithdrefnau'r heddlu.
- Cydraddoldeb hiliol a gwelliannau cyffredinol o ran profiadau a chanfyddiadau'r bobl sy'n destun pwerau a gweithdrefnau'r heddlu.

## Bydd ein hamcanion yn sicrhau bod pobl Dduon:

- Yn cael eu trin yn deg yn eu rhyngweithiadau â BTP.
- Heb eu targedu gan bwerau'r heddlu.
- Profi tegwch ym mhob cam o brosesau cyfiawnder troseddol BTP.
- Teimlo'n hyderus na fydd grym yn cael ei ddefnyddio'n anghymesur yn eu herbyn.
- Teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt pan ddarperir adborth mewn perthynas â defnyddio pwerau.

---

[4] **Cyfiawnder Gweithdrefnol:** Yn darparu tegwch yn y prosesau sy'n datrys anghydfodau ac yn dyrannu adnoddau, gan sicrhau bod arferion plismona yn dryloyw, yn ddiduedd ac yn barchus.

# 3. WEDI'U CYNNWYS I ADEILADU YMDDIRIEDAETH A CHYMODI

## Gweledigaeth llif gwaith

**Mae pobl a chymunedau duon yn rhan o’n hystyriaethau llywodraethu a pholisi ac yn gallu ein herio ar y ffordd ydym yn defnyddio ein pwerau.**

## Amcanion:

- Cydraddoldeb hiliol a chynnydd cyffredinol o ran hyder y cyhoedd yn BTP.
- Tegwch hiliol a chynnydd cyffredinol yn ymddiriedaeth y cyhoedd a staff yn BTP.
- Bod yn deg ac yn barchus i ddeall ac ymdrin â phryderon y gymuned.

## Bydd ein hamcanion yn sicrhau bod pobl Dduon:

- Yn gallu dylanwadu ar ein penderfyniadau ar wahanol gamau yn y broses.
- Yn gallu lleisio eu barn, yr hyn rydym yn dysgu ohoni i wella ac addasu ein hymddygiadau a'n harferion.
- Derbyn gwybodaeth amserol ac ystyrlon gennym am ein penderfyniadau a sut y gwnaethom eu cyrraedd.
- Cael cyfleoedd i adolygu ein penderfyniadau a chael dulliau priodol o wneud iawn.
- Yn cael eu trin ag urddas a pharch.

**Dysgwch ragor am Grwpiau Cynghori Annibynnol yma: Dolen**

# 4. HEB EU TAN-AMDDIFFYN FEL DIODDEFWYR, OFN TROSEDD NEU DRWY FREGUSRWYDD

## Gweledigaeth llif gwaith

**Nid yw pobl dduon yn cael eu tan-amddiffyn ac maent yn cael eu cefnogi'n briodol fel dioddefwyr troseddau ac fel grwpiau agored i niwed.**

## Amcanion:

- Tegwch hiliol a gostyngiadau cyffredinol yn y tebygolrwydd y bydd pobl yn ddioddefwyr trosedd neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, neu yn profi niwed.
- Tegwch hiliol a gostyngiadau cyffredinol mewn teimladau o ddiogelwch ac ofn troseddu.
- Tegwch hiliol a gwelliannau cyffredinol yn y ffyrdd y mae Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig yn ymateb i droseddu, ymddygiad gwrthgymdeithasol a phryderon ynghylch diogelwch.
- Tegwch hiliol a gwelliannau cyffredinol o ran profiadau a chanfyddiadau dioddefwyr, tystion a phobl agored i niwed.

## Bydd ein hamcanion yn sicrhau bod pobl Dduon:

- Yn teimlo'n wirioneddol eu bod wedi'u hamddiffyn gan BTP.
- Yn derbyn y lefel o ofal y dylent ei ddisgwyl fel dioddefwr trosedd.
- Yn cael eu cefnogi i ddarparu datganiadau fel tystion a dioddefwyr.
- Yn teimlo'n ddiogel wrth ddefnyddio neu weithio ar y rheilffordd.
- Yn cael eu cefnogi pan ganfyddir bregusrwydd.

# METHODOLEG CYFLAWNI

## Ymgysylltu â'r Gymuned a Rhanddeiliaid:

I gyflawni hyn, byddwn yn parhau i gynnal sesiynau ymgysylltu cymunedol gyda chymunedau Duon sydd yn defnyddio ac yn gweithio ar y rheilffordd. Rydym yn adeiladu ar graffu mewnol ac allanol i herio ein gwaith yn weithredol er mwyn sicrhau ei fod cystal ag y gall fod, gan ddod ag atebolrwydd cyhoeddus a mewnbwn gwybodus. Drwy adeiladu ein Grwpiau Cynghori Annibynnol[5], byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'n cynllun ac yn darparu cyfleoedd i gymunedau roi adborth a chael eu clywed. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'n Rhwydweithiau Cymorth i Gyflogeion i ddatblygu'r cynllun a sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn ffocws i'r sefydliad gyda chanlyniadau pendant.

## Dysgu ac Ymwybyddiaeth:

Byddwn yn darparu offer ac adnoddau dysgu i greu gweithlu sy'n deall hanes cymunedau Duon a phlismona, a sut mae hyn wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth yn yr heddlu.

**Waeth beth fo rôl unigolion o fewn yr heddlu, bydd ganddynt fynediad at adnoddau i wella eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn cyfrannu'n gadarnhaol at Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu:**

1. **Llyfrgell Benthyca:**
Rydym wedi datblygu llyfrgell sy'n cynnwys ystod eang o lyfrau sy'n canolbwyntio ar hanes a diwylliant Pobl Dduon ac effaith hiliaeth systemig. Mae'r llyfrgell hon ar gael i'n holl bobl, er mwyn annog hunan-addysg a dysgu parhaus. Caiff y casgliad ei ddiweddaru'n rheolaidd gyda deunyddiau newydd, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn berthnasol ac yn gynhwysfawr.

2. **Hyb Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu:**
Rydym wedi creu hyb ar-lein sy'n ymroddedig i Gynllun Gweithredu Hil yr Heddlu. Mae'r hyb hwn yn cynnwys deunyddiau addysg bellach, gan gynnwys gweminarau, modiwlau e-ddysgu, erthyglau ac astudiaethau achos. Mae'n gwasanaethu fel adnodd canolog i gyflogeion BTP gael mynediad at wybodaeth ac offer i ddeall a gweithredu egwyddorion Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn well. Caiff y ganolfan ei diweddaru'n rheolaidd gyda chynnwys newydd a diweddariadau ar berfformiad i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn ddynamig ac yn cadw ein pobl yn wybodus am gynnydd a heriau.

3. **Cynhyrchion Hyfforddi Hanes Pobl Dduon:**
Rydym wedi datblygu cyfres o fodiwlau hyfforddi sydd wedi'u cynllunio'n benodol i addysgu ein cyflogeion am hanes Pobl Dduon gyda phlismona a chyfraniadau unigolion Duon i gymdeithas. Mae'r modiwlau hyn yn ymdrin â digwyddiadau, ffigurau a mudiadau hanesyddol allweddol, gan amlygu pwysigrwydd hanes Pobl Dduon wrth lunio ein presennol a'n dyfodol.

4. **Diweddariadau Chwarterol:**
Rydym yn darparu diweddariadau chwarterol i'n holl gyflogeion i amlygu cynnydd y Cynllun, heriau ac arferion gweithio da. Bydd hyn yn sicrhau ymgysylltiad rheolaidd â'r gweithlu cyfan a bod Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn parhau i fod yn rhan o'r sgwrs.

[5] **Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG):** Grwpiau sy'n cynnwys aelodau'r gymuned sy'n darparu cyngor a chraffu annibynnol i BTP, gan helpu i sicrhau atebolrwydd a thryloywder.

# METHODOLEG CYFLAWNI

## Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu

Mae hwn yn cael ei gadeirio gan arweinydd y llu, sy'n aelod o Grŵp y Prif Swyddogion, ac mae arweinwyr llif gwaith, partneriaid cyflawni, cydlynydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu ac aelodau'r Grŵp Cynghori Annibynnol ac Awdurdod Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTPA) yn bresennol. Bydd yn mabwysiadu dull sy'n seiliedig ar dystiolaeth, wedi'i lywio gan brofiad bywyd a phroffesiynol, sgiliau a gwybodaeth i gyflawni'r cynllun a gwneud newid hirdymor, cyson a chynaliadwy, wedi'i yrru gan berchnogaeth ac atebolrwydd cryf. Mae'r cynllun yn destun monitro ac adolygu cyson. Defnyddir dangosyddion perfformiad allweddol i ddatblygu camau gweithredu a fydd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyraeddadwy a lle bo'n bosibl, o fewn amserlenni penodol.

Byddwn yn parhau i wrando a dysgu o brofiadau bywyd, defnyddio arfer gorau ac asesu ein perfformiad i helpu i gyflawni ein huchelgais o fod yn llu sy'n wrth-hiliol ac y mae pobl Dduon yn ymddiried ynddo.

## Chwarae EIN rhan NI

Mae'n hanfodol bod ein holl gyflogeion yn gwybod am ein Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu ac yn ei ddeall. Mae'n hanfodol bod pob cyflogai yn gwybod pa ran maen nhw'n ei chwarae wrth fod yn llu gwrth-hiliol.

Bydd ymgorffori ymwybyddiaeth a dysgu trwy brofiadau byw, derbyn y dystiolaeth a gwella ein lefel o graffu yn galluogi ein holl gyflogeion i ddeall pam mae Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu mor bwysig wrth feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn cymunedau Duon.

## Mesur yr Effaith

Byddwn yn defnyddio **15 dangosydd hiliaeth sefydliadol**[6] drwy lens cymunedau Duon i nodi meysydd risg a llywio ein gweithredoedd. Bydd hyn yn cynnwys dadansoddiad bylchau i ddeall sefyllfa BTP o ran cynrychiolaeth, denu, recriwtio a chadw'r gweithlu gan gynnwys rolau, rhengoedd a graddau arbenigol. Byddwn yn adolygu effeithiolrwydd ymgysylltu mewnol a chymunedol yn ogystal ag adolygu anghymesuredd stopio a chwilio ac unrhyw anghymesuredd mewn graddau, cwynion, tribiwnlysoedd ac achosion disgyblu Adolygiad Datblygu Perfformiad.

Byddwn yn olrhain cynnydd y ffrydiau gwaith yn erbyn dangosyddion perfformiad allweddol a amlinellir isod. Bydd y dangosyddion hyn yn cael eu hadeiladu i mewn i sylfaen fframwaith perfformiad BTP i sicrhau ein bod yn atebol am gyflawni. Bydd cynnydd yn cael ei olrhain, ei fonitro a'i fesur yn erbyn amcanion strategol Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu.

Bydd y tîm Cynhwysiant ac Amrywiaeth yn cymryd samplau ar hap o gynnydd er mwyn darparu sicrwydd ansawdd. Bydd cyflawniad a chynnydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod chwarterol y Bwrdd Cynhwysiant ac Amrywiaeth.

Bydd BTP yn gweithio'n agos gyda'r NPCC, a bydd[7] mesurau meintiol ac ansoddol yn cael eu hasesu yn erbyn matrics aeddfedrwydd cenedlaethol dan arweiniad NPPC[8] a fydd yn darparu mesuriad o gynnydd ac yn caniatáu i ni rannu a chipio arfer gorau mewn lluoedd eraill.

[6] **15 Dangosydd Hiliaeth Sefydliadol:** Set o feini prawf a ddefnyddir i nodi a mesur presenoldeb hiliaeth sefydliadol o fewn BTP, gan arwain ymdrechion i fynd i'r afael â rhagfarnau a'u dileu.

[7] **Anghymesuredd:** Yn cyfeirio at y defnydd o ddata rhifiadol (meintiol) a gwybodaeth ddisgrifiadol (ansoddol) i asesu a mesur cynnydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu BTP.

[8] **Matrics Aeddfedrwydd:** Offeryn a gynlluniwyd gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu mewn ymgynghoriad â chymunedau Duon i asesu a mesur cynnydd heddluoedd, gan gynnwys BTP, wrth ddod yn wrth-hiliol.

# METHODOLEG CYFLAWNI - DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL:

## Ffrwd Waith 1: Diwylliant a'r Gweithlu

- Parhau i leihau'r bwlch cyflog ethnigrwydd ar gyfer cyflogeion Duon (adroddiad blynyddol ar y Bwlch Cyflog Ethnigrwydd[9])
- Gwella cynrychiolaeth y gweithlu Du gan gynnwys ffocws ar groestoriadolrwydd ar gyfer rhywedd, rhywioldeb ac anabledd (adrodd chwarterol).
- Gwella cyfradd llwyddiant derbyn recriwtiaid Duon (Twnel recriwtio - chwarterol).
- Monitro data Ymunwyr ac Ymadawyr ac arddangos camau gweithredu o adborth arolwg ymadael (chwarterol).
- Gwella'r gyfradd llwyddiant dyrchafiad ar gyfer ymgeiswyr Duon (Ceisiadau a llwyddiant ym mhob cam).
- Gwella canfyddiadau cyflogeion Duon o gynhwysiant gan ystyried hefyd Croestoriadedd Menywod Duon: Ein harolwg o'r Gweithlu Du[10] / All Arolwg pobl[11] (yn flynyddol).
- Gwella anghymesuredd yr Adolygiad [12] Datblygiad Personol (PDR) - marcio blychau dosbarthiadau (yn flynyddol).

## Ffrwd Waith 2: Pwerau a Gweithdrefnau

- Monitro Cwynion a Chynnal data ymchwiliadau sy'n ymwneud â Chyflogeion Duon (chwarterol).
- Monitro cyfradd a niferoedd Stopio a Chwilio ymhlith pobl Dduon, a lleihau anghymesuredd.
- Gwella'r gyfradd ganfod ar gyfer pob pŵer stopio a chwilio ar gyfer Pobl dduon.
- Defnyddio Grym a defnyddio Taser yn erbyn pobl Dduon a lleihau anghymesuredd.
- Monitro unrhyw anghymesuredd o gofnodi digwyddiadau Stopio Ddeddf Traffig Ffyrdd Adran 163 Stops[13] a sicrhau bod pob digwyddiad stopio'n cael ei gofnodi.
- Adolygu a lleihau anghymesuredd i bobl Dduon sydd yn cael eu harestio, eu rhyddhau dan ymchwiliad neu eu cyhuddo.



[9] **Adroddiad Bwlch Cyflog Ethnigrwydd:** Adroddiad sy'n asesu'r cyflog cyfartalog ar gyfer gwahanol gefndiroedd ethnig. Mae'r bwlch wedi lleihau o flwyddyn i flwyddyn ond po fwyaf o bobl sy'n llwyddiannus mewn dyrchafiad, y mwyaf y bydd y bwlch yn cau.

[10] **Ein Harolwg o'r Gweithlu Du:** Arolwg a gynlluniwyd i gasglu profiadau ac agweddau swyddogion a staff heddlu Du a Threftadaeth Ddu. Mae'r arolwg yn llywio strategaethau a chamau gweithredu i wella amodau gwaith a chadw staff.

[11] **Arolwg Pawb:** Arolwg cynhwysfawr sy'n casglu adborth gan holl bobl BTP i ddeall eu profiadau a'u canfyddiadau o fewn yr heddlu.

[12] **PDR (Adolygiad Datblygiad Personol):** Proses lle mae swyddogion a staff BTP yn derbyn adborth ar eu perfformiad a'u datblygiad, gyda ffocws ar gefnogi dilyniant gyrfa.

[13] **Adran 163 Deddf Traffig Ffyrdd:** Yn cyfeirio at yr adran o'r Ddeddf Traffig Ffyrdd sy'n rhoi'r pŵer i'r heddlu atal cerbydau.

# METHODOLEG CYFLAWNI - DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL:

## Ffrwd Waith 3: Ymddiriedaeth a Chymodi

- Camau rhesymol i'w cymryd ar gyfer pob cwyn gyhoeddus gan y gymuned Ddu (amser ymateb a chanlyniadau).
- Gwella cynrychiolaeth a chyfranogiad Pobl Dduon mewn Grŵp Cynghori Annibynnol a grwpiau craffu allanol[14].
- Gwella Ymgysylltiad Cymunedol â chymunedau Duon (Cyflwyniadau traciwr gweithgarwch y Cynllun[15] Gweithredu Hil).
- Gwella Ymddiriedaeth a Hyder yn y defnydd o stopio a chwilio a'r defnydd o rym ar bobl Ddu (cardiau Z[16], paneli craffu Stopio a Chwilio).
- Gwella Ymddiriedaeth a Hyder mewn Plismona ar gyfer pobl Dduon (Adborth craffu allanol, adborth traciwr gweithgarwch Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu, Arolygon cyhoeddus[17], arolwg dioddefwyr troseddau[18]).




[14] **Grwpiau Craffu Allanol:** Grwpiau sy'n cynnwys aelodau'r gymuned sy'n adolygu ac yn rhoi adborth ar arferion plismona, gan sicrhau atebolrwydd a thryloywder o safbwynt y gymuned.

[15] **Traciwr Gweithgarwch Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu:** Offeryn a ddefnyddir i fonitro ac olrhain gweithgareddau a chynnydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu BTP, gan sicrhau bod nodau ac ymrwymiadau'n cael eu cyflawni.

[16] **Cardiau-Z:** Offeryn a ddefnyddir i roi adborth yn dilyn digwyddiad stopio a chwilio.

[17] **Arolwg cyhoeddus:** Offeryn arolwg penodol a ddefnyddir gan BTP i gasglu adborth teithwyr rheilffordd ar feysydd fel teimladau o ddiogelwch, lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

[18] **Arolwg Dioddefwyr Troseddau:** Arolwg sy'n casglu adborth gan ddioddefwyr troseddau am eu profiadau gyda BTP, gan ganolbwyntio ar sicrhau triniaeth deg a pharchus i bawb, waeth beth fo'u hil.

# METHODOLEG CYFLAWNI - DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL:

## Ffrwd Waith 4: Diogelwch ac Erledigaeth:

- Gwella Cofnodi Ethnigrwydd Hunan-ddiffiniedig Dioddefwyr ar draws pob platfform cofnodi.
- Lleihau Trais yn erbyn Pobl Dduon a monitro difrifoldeb y niwed anghymesuredd yn erbyn ethnigrwyddau eraill (% o ddioddefwyr, cyfraddau a niferoedd).
- Arddangos dull diogelu ar gyfer trais difrifol yn erbyn pobl Dduon, gyda ffocws ar bobl ifanc ac ecsbloetio (% y dioddefwyr, cyfraddau a chyfrolau, cyflwyniadau Adroddiadau[19] Diogelu ac Agoredrwydd/ ymyriadau partneriaid/atgyfeiriadau).
- Lleihau erledigaeth troseddau casineb i bobl Dduon (% o ddioddefwyr, cyfraddau a niferoedd).
- Lleihau erledigaeth cam-drin domestig i bobl Ddu (% dioddefwyr, cyfraddau a niferoedd).
- Lleihau trefn gyhoeddus ddifrifol yn erbyn pobl Ddu (% dioddefwyr, cyfraddau a niferoedd).
- Gwella Canlyniadau Troseddau Cyfiawnder Troseddol (Cyfraddau Gallu Datrys): % o droseddau dioddefwyr pobl Dduon gyda chanlyniad cadarnhaol o'i gymharu ag ethnigrwyddau eraill.
- Gwella teimladau o ddiogelwch pobl Dduon ar y rhwydwaith rheilffyrdd (arolygon cyhoeddus, arolwg dioddefwyr troseddau).
- Gwella cyfaint a theimlad yr arolwg boddhad Dioddefwyr.
- Gwella cofnodi Ethnigrwydd Hunan-ddiffiniedig (SDE) ar gyfer pobl sy'n mynd ar goll dro ar ôl tro ac arddangos dull diogelu (Adroddiad Diogelu a Bregusrwydd, Cynlluniau Datrys Problemau, asesiadau bregusrwydd, atgyfeiriadau i'r awdurdod lleol).
- Monitro anghymesuredd A.136 a derbyniadau gwirfoddol ar gyfer Pobl Dduon ac arddangos dull diogelu effeithiol (Adroddiad Diogelu ac Agoredrwydd, Cynlluniau Datrys Problemau, asesiadau bregusrwydd, atgyfeiriadau i'r awdurdod lleol).

*** Diffinnir trais difrifol yn y Strategaeth Trais Difrifol ac mae'n canolbwyntio ar lofruddiaeth, troseddau gynnau, troseddau cyllyll a chamfanteisio drwy rwydweithiau Llinellau Cyffuriau (https://assets.publishing.service.gov.uk/ media/5acb21d140f0b64fed0afd55/serious-violence-strategy.pdf)**

[19] **SVR (Adroddiad Diogelu a Bregusrwydd):** Ffurflen a gyflwynir pan amheuir bod rhywun yn agored i niwed. Mae'r ffurflen yn sbarduno proses i sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu i'r unigolyn dan sylw.

# ATODIAD 1: STRWYTHUR CYNLLUN GWEITHREDU HIL YR HEDDLU

**Arweinydd COG Grŵp Llywio Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu**

**Rachael Etebar**

Cyfarwyddwr,
Pobl a Diwylliant

**Arweinydd Strategaeth I&D**

**Vanita Patel**

Pennaeth Dros Dro Cynhwysiant Strategol ac Amrywiaeth

**Cydlynydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu**

**Richard Powell**

Prif Arolygydd

**Ffrwd waith 1**

**Wedi'u cynrychioli drwy ein gweithlu a'n diwylliant**

Uwch Arweinydd

**Ffrwd waith 2**

**Heb eu gor-blismona yn y defnydd o'n pwerau a'n gweithdrefnau**

Uwch Arweinydd

**Ffrwd waith 3**

**Yn rhan o adeiladu ymddiriedaeth a chymodi**

Uwch Arweinydd

**Ffrwd waith 4**

**Heb gael eu tanamddiffyn fel dioddefwyr, oherwydd ofn trosedd neu oherwydd eu bod yn agored i niwed (Diogelwch ac Erledigaeth)**

Uwch Arweinydd

# ATODIAD 2: DOLENNI I STRATEGAETHAU A BLAENORIAETHAU YCHWANEGOL

## Cynlluniau Cysylltiedig a Dogfennau y Cyfeirir Atynt

- **Strategaeth Gwarchodwyr y Rheilffyrdd 2022-2027**
  Cliciwch yma

- **Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu NPCC**
  Cliciwch yma

- **Adroddiad Prydain Gynhwysol**
  Cliciwch yma

- **Adroddiad Macpherson**
  Cliciwch yma

- **Adrodddiad Casey 2023**
  Cliciwch yma

- **Cynhwysiant ac Amrywiaeth Strategaeth Pum Mlynedd 2023-2028**
  Cliciwch yma



## Geirfa:

1. **Esbonio neu ddiwygio:** Darparu esboniad clir am wahaniaethau hiliol o fewn plismona neu weithredu diwygiadau i fynd i'r afael â'r gwahaniaethau hyn a'u dileu

2. **Anghymesuredd:** Y driniaeth neu'r effaith anghyfartal ar wahanol grwpiau hiliol, yn enwedig cymunedau Duon, mewn meysydd fel stopio a chwilio, defnyddio grym ac arferion plismona eraill.

3. **Tegwch hiliol:** Y nod o sicrhau triniaeth, cyfleoedd a chanlyniadau teg gyda ffocws ar ddileu gwahaniaethau a rhagfarnau o fewn plismona.

4. **Cyfiawnder Gweithdrefnol:** Yn darparu tegwch yn y prosesau sy'n datrys anghydfodau ac yn dyrannu adnoddau, gan sicrhau bod arferion plismona yn dryloyw, yn ddiduedd ac yn barchus.

5. **Grŵp Cynghori Annibynnol (IAG):** Grwpiau sy'n cynnwys aelodau'r gymuned sy'n darparu cyngor a chraffu annibynnol i BTP, gan helpu i sicrhau atebolrwydd a thryloywder.

6. **15 Dangosydd Hiliaeth Sefydliadol:** Set o feini prawf a ddefnyddir i nodi a mesur presenoldeb hiliaeth sefydliadol o fewn BTP, gan arwain ymdrechion i fynd i'r afael â rhagfarnau a'u dileu.

7. **Meintiol ac Ansoddol:** Yn cyfeirio at y defnydd o ddata rhifiadol (meintiol) a gwybodaeth ddisgrifiadol (ansoddol) i asesu a mesur cynnydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu BTP.

8. **Matrics Aeddfedrwydd:** Offeryn a gynlluniwyd gan Gyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu mewn ymgynghoriad â chymunedau Duon i asesu a mesur cynnydd heddluoedd, gan gynnwys BTP, wrth ddod yn wrth-hiliol.

9. **Adroddiad Bwlch Cyflog Ethnigrwydd:** Adroddiad sy'n cymharu cyflog gweithwyr o wahanol gefndiroedd ethnig o fewn BTP, gan amlygu unrhyw wahaniaethau ac arwain ymdrechion i fynd i'r afael â nhw.

10. **Ein Harolwg o'r Gweithlu Du:** Arolwg a gynlluniwyd i gasglu profiadau ac agweddau swyddogion a staff heddlu Du a Threftadaeth Ddu. Mae'r arolwg yn llywio strategaethau a chamau gweithredu i wella amodau gwaith a chadw staff.

11. **Arolwg Pawb:** Arolwg cynhwysfawr sy'n casglu adborth gan holl bobl BTP i ddeall eu profiadau a'u canfyddiadau o fewn y llu.

**Geirfa:**

12. **Adolygiad Datblygiad Personol (PDR):** Proses lle mae swyddogion a staff BTP yn derbyn adborth ar eu perfformiad a'u datblygiad, gyda ffocws ar gefnogi dilyniant gyrfa.

13. **Adran 163 Deddf Traffig Ffyrdd:** Yn cyfeirio at yr adran o'r Ddeddf Traffig Ffyrdd sy'n rhoi'r pŵer i'r heddlu atal cerbydau.

14. **Grwpiau Craffu Allanol:** Grwpiau sy'n cynnwys aelodau'r gymuned sy'n adolygu ac yn rhoi adborth ar arferion plismona, gan sicrhau atebolrwydd a thryloywder o safbwynt y gymuned.

15. **Traciwr Gweithgarwch Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu:** Offeryn a ddefnyddir i fonitro ac olrhain gweithgareddau a chynnydd Cynllun Gweithredu Hil yr Heddlu BTP, gan sicrhau bod nodau ac ymrwymiadau'n cael eu cyflawni.

16. **Cardiau-Z:** Offeryn a ddefnyddir i roi adborth yn dilyn digwyddiad stopio a chwilio.

17. **Arolwg cyhoeddus:** Offeryn arolwg penodol a ddefnyddir gan BTP i gasglu adborth teithwyr rheilffordd ar feysydd megis teimladau o ddiogelwch, lefelau troseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

18. **Arolwg Dioddefwyr Troseddau:** Arolwg sy'n casglu adborth gan ddioddefwyr troseddau am eu profiadau gyda BTP, gan ganolbwyntio ar sicrhau triniaeth deg a pharchus i bawb, waeth beth fo'u hil.

19. **Adroddiad Diogelu a Bregusrwydd (SVR):** Ffurflen a gyflwynir pan amheuir bod rhywun yn agored i niwed. Mae'r ffurflen yn sbarduno proses i sicrhau bod y cymorth cywir yn cael ei ddarparu i'r unigolyn dan sylw. Gan nodi profiadau ac agweddau swyddogion a staff heddlu Du a Threftadaeth Ddu. Mae'r arolwg yn llywio strategaethau a chamau gweithredu i wella amodau gwaith a chadw staff.

HEDDLU
TRAFNIDIAETH
PRYDEINIG

BRITISH
TRANSPORT
POLICE